# CÔD YMDDYGIAD I WIRFODDOLWYR

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad gwirfoddol sy'n llwyr ddibynnol ar gyfraniadau aelodau a chefnogwyr. Rydym bob amser yn croesawu cynigion i gynorthwyo a gweithredu.

Mae croeso i bawb yn ngweithgarwch Cymdeithas yr Iaith, ac rydyn ni eisiau i bawb allu cyfrannu a mwynhau. Mae hawl gan bawb i deimlo'n ddiogel wrth ymwneud â'r Gymdeithas – fel aelod o staff, fel gwirfoddolwr, aelod neu gefnogwr, a bydd disgwyl i bawb barchu ei gilydd ac ymddwyn mewn ffordd sy'n sicrhau hynny.

Lluniwyd y Côd Ymddygiad hwn yn benodol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithredu fel gwirfoddolwr gyda'r Gymdeithas – o stiwardio mewn rali neu gig i fod yn swyddog etholedig ar Senedd y Gymdeithas.

## 2. CÔD YMDDYGIAD

Disgwylir i bob gwirfoddolwr ddilyn y Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Cyhoedd ac i gydymffurfio â'r Polisi Urddas a Pharch a'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus.

Yn ogystal, nodir y pwyntiau isod.

**2.1** Byddwch yn ymwybodol o'r ffordd yr ydych yn cyflawni eich dyletswyddau gan gofio eich bod yn gwneud hynny yn enw Cymdeithas yr Iaith.

**2.2** Tra'n gwirfoddoli gyda Chymdeithas yr Iaith ni ddylech ymwneud ag unrhyw weithred a allai dwyn anfri ar y Gymdeithas. Disgwylir i wirfoddolwyr bwyllo a diogelu eu henw da eu hunain ac enw da'r Gymdeithas.

**2.3** Os yw eich rôl fel gwirfoddolwr yn golygu gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol y Gymdeithas, disgwylir i chi ddilyn y Canllaw Cyfryngau Cymdeithasol.

**2.4** Os yw eich rôl fel gwirfoddolwr yn cynnwys bod mewn sefyllfa o gyfrifoldeb, e.e. stiwardio mewn gig, ni ddylech yfed alcohol na chymryd unrhyw sylweddau/cyffuriau a allai amharu ar eich gallu i sicrhau diogelwch unrhyw aelod o'r cyhoedd.

**2.5** Os yw eich rôl fel gwirfoddolwyr yn golygu cael mynediad at wybodaeth neu ddeunydd cyfrinachol neu sensitif (am unigolyn neu am y Gymdeithas ei hun), ni ddylid datgelu'r wybodaeth hynny.

**2.6** Os yw eich rôl fel gwirfoddolwr yn golygu bod yn gyfrifol am offer/eiddo'r Gymdeithas, disgwylir i chi gymryd pob gofal rhesymol o'r offer/eiddo hynny, ac hysbysu aelod o staff cyn gynted â phosib am unrhyw nam, difrod neu golled. Dylech sicrhau bod yr offer/eiddo yn cael eu dychwelyd i aelod o'r staff ar y diwedd. Ni ddylech rannu unrhyw offer/eiddo gyda mudiadau neu unigolion y tu allan i'r Gymdeithas heb ganiatâd.

**2.7** Ni ddylid archebu nwyddau neu wasanaethau yn enw'r Gymdeithas, heb ganiatâd o flaen llaw gan y Senedd neu un o'r grwpiau ymgyrchu neu ranbarthau (gweler 2.3 y Polisi Treuliau i Wirfoddolwyr).

Gall gweithredu'n groes i unrhyw un o'r uchod arwain at y broses disgyblu fel y'i nodir yn adran 5 o Gyfansoddiad Cymdeithas y Iaith.

*Senedd Cymdeithas yr Iaith*
*Ionawr 2024*